OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 2901

# Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013

## RHAN 1

### Absenoldeb mamolaeth

**Amodau rhagnodedig**

**3.** At ddibenion adran 24(1) o'r Mesur, yr amodau rhagnodedig yw—

(a) bod yr aelod, heb fod yn hwyrach na diwedd 15 o wythnosau cyn yr wythnos y disgwylir geni'r plentyn, neu, os nad yw hynny'n rhesymol ymarferol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd o'r canlynol—

(i) bod yr aelod yn feichiog;

(ii) yr wythnos y disgwylir geni'r plentyn;

(iii) y dyddiad y mae'r aelod yn bwriadu i'r absenoldeb mamolaeth ddechrau; a

(iv) hyd y cyfnod o absenoldeb mamolaeth y mae'r aelod yn bwriadu ei gymryd, os yw'n llai na 26 o wythnosau;

(b) bod yr aelod, os cafodd gais i wneud hynny gan y pennaeth gwasanaethau democrataidd, wedi darparu i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd dystysgrif gan ymarferydd meddygol cofrestredig neu fydwraig gofrestredig yn datgan yr wythnos y disgwylir geni'r plentyn;

(c) pan fo'r aelod yn dymuno amrywio dechrau'r absenoldeb mamolaeth sydd wedi ei bennu o dan baragraff (a)(iii), bod yr aelod wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd o'r dyddiad dechrau newydd o leiaf un wythnos cyn y dyddiad a bennwyd o dan baragraff (a)(iii), neu o leiaf un wythnos cyn y dyddiad newydd, pa un bynnag sydd gynharaf, neu, os nad yw hynny'n rhesymol ymarferol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol; a

(d) pan fo'r aelod yn dymuno amrywio hyd yr absenoldeb mamolaeth, bod yr aelod wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd o'r hyd newydd o leiaf un wythnos cyn diwedd y cyfnod o absenoldeb a ddisgwylir yn unol â'r hyd a bennwyd o dan baragraff (a)(iv), neu o leiaf un wythnos cyn diwedd arfaethedig newydd y cyfnod o absenoldeb, pa un bynnag sydd gynharaf, neu os nad yw hynny'n rhesymol ymarferol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

**Y cyfnod o absenoldeb mamolaeth**

**4.** Y cyfnod o absenoldeb mamolaeth yw 26 o wythnosau, oni bai bod yr aelod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig o dan reoliad 3(a)(iv), (d) neu 7 y bydd y cyfnod o absenoldeb mamolaeth yn llai na 26 o wythnosau.

### Pryd y caniateir cymryd absenoldeb mamolaeth

**5.** Ni chaniateir cymryd absenoldeb mamolaeth ond os yw'n cael ei gymryd fel ei fod yn dechrau yn ystod y cyfnod—

(a) sy'n dechrau ar ddechrau'r unfed wythnos ar ddeg cyn yr wythnos y disgwylir geni'r plentyn; a

(b) sy'n dod i ben ar y diwrnod ar ôl diwrnod geni'r plentyn.

### Aelod i ddewis dyddiad dechrau'r absenoldeb mamolaeth

**6.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3) a rheoliad 5, caiff aelod ddewis y dyddiad pryd y bydd ei absenoldeb mamolaeth i ddechrau.

(2) Pan fo aelod, yn ystod y cyfnod o bedair wythnos cyn dechrau'r wythnos y disgwylir geni'r plentyn, yn absennol o un o gyfarfodydd yr awdurdod am reswm sy'n ymwneud yn llwyr neu'n rhannol â beichiogrwydd, mae'r cyfnod o absenoldeb mamolaeth yn dechrau ar y diwrnod ar ôl y cyfarfod y mae'r aelod yn absennol ohono.

(3) Pan nad yw absenoldeb mamolaeth aelod wedi dechrau yn unol â'r dyddiad a hysbyswyd gan aelod o dan reoliad 3(a)(iii) ar adeg geni'r plentyn, mae absenoldeb mamolaeth yr aelod hwnnw yn dechrau ar y diwrnod ar ôl diwrnod geni'r plentyn.

(4) Nid yw Rheoliadau 3(a)(ii), (iii) a (b) yn gymwys o ran aelod y mae ei absenoldeb yn dechrau yn rhinwedd paragraff (3).

### Terfynu cyfnod o absenoldeb mamolaeth

**7.** Caiff aelod derfynu cyfnod o absenoldeb mamolaeth yn gynharach na diwedd y cyfnod a nodwyd yn rheoliad 4, a hysbyswyd o dan reoliad 3(a)(iv) neu a amrywiwyd o dan reoliad 3(d) drwy hysbysu'r pennaeth gwasanaethau democrataidd yn ysgrifenedig o'i fwriad i wneud hynny o leiaf 7 niwrnod cyn iddo ddychwelyd.

### Diddymu absenoldeb mamolaeth

**8.** Caiff aelod ddiddymu cyfnod o absenoldeb mamolaeth o dan yr amgylchiadau canlynol—

(a) nid yw'r cyfnod o absenoldeb mamolaeth wedi dechrau hyd yn hyn; a

(b) mae'r aelod wedi hysbysu'r pennaeth gwasanaethau democrataidd yn ysgrifenedig o'i fwriad i ddiddymu'r absenoldeb.